Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Cynllun Buddion Ymddeol Staff

Datganiad Gweithredu

31 Mawrth 2024

Mae'r ddogfen hon yn adolygu'r graddau y mae Ymddiriedolwyr Cynllun Buddion Ymddeol Staff Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ("y Cynllun") wedi ufuddhau i arfer hawliau (gan gynnwys pleidleisio), ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu a monitro'r rheolwr buddsoddi (y Polisïau Stiwardiaeth) yn ystod blwyddyn gyfrifyddu'r Cynllun (yn dod i ben 31 Mawrth 2024) fel y nodwyd yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi'r ("SIP") Cynllun dyddiedig Awst 2021, sef y Datganiad SIP a oedd ar waith ar ddiwedd blwyddyn y Cynllun.

Ar ben hynny, mae'r adroddiad hwn yn darparu enghreifftiau o ymddygiad pleidleisio a'r pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a gafwyd ar ran Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn.

1. Polisi ymddiriedolwyr ar ymgysylltu

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu o ran dylanwadu ar newid oherwydd maint a natur buddsoddiadau'r Cynllun ac o ystyried bod y Cynllun yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfunol.

At hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn nodi na ellir teilwra'r strategaeth fuddsoddi a phenderfyniadau'r rheolwr buddsoddi i bolisïau'r Ymddiriedolwyr ac nid yw'r rheolwr yn cael ei dalu'n uniongyrchol ar y sail hon. Mae'r Ymddiriedolwyr, gyda chymorth eu cynghorwyr, yn gosod y strategaeth fuddsoddi ar gyfer y Cynllun ac yn dewis rheolwyr a chronfeydd priodol i weithredu'r strategaeth.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn cymell y rheolwr buddsoddi yn uniongyrchol i ymgysylltu â chyhoeddwyr dyled neu ecwiti i wella eu perfformiad. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r rheolwr buddsoddi gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath sy'n briodol ac yn angenrheidiol i gyflawni amcanion buddsoddi'r gronfa berthnasol. Mae'r cronfeydd a ddefnyddir fel arfer yn cynnwys amcan y disgwylir sicrhau enillion cadarnhaol dros y tymor canolig i'r tymor hir ac, o'r herwydd, disgwylir i ymgysylltiad y rheolwr buddsoddi â chyhoeddwyr dyled neu ecwiti gael ei gyflawni er mwyn targedu creu gwerthoedd tymor canolig i dymor hir. Dros y cyfnod, bu'r Ymddiriedolwyr yn monitro perfformiad cronfeydd y Cynllun trwy adroddiadau buddsoddi, a gynhyrchwyd gan EdenTree Investment Management ("EdenTree").

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod yr angen i fod yn stiward cyfrifol ac arfer yr hawliau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau'r Cynllun mewn modd cyfrifol. O ran buddsoddiadau ecwiti, mae'r ymddiriedolwyr wedi rhoi disgresiwn llawn i'r rheolwr buddsoddi penodedig ynghylch stiwardiaeth buddsoddiadau.

Yn ystod y flwyddyn, felly buddsoddodd y Cynllun mewn ecwiti trwy'r gronfa ganlynol:

- Cronfa Ecwiti Byd-eang Cyfrifol a Chynaliadwy EdenTree

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi adolygu polisïau a phrosesau pleidleisio'r rheolwr (gan gynnwys y pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a fwriwyd dros y cyfnod) a'r achosion o wrthdaro buddiannau a ddatganwyd gan y rheolwr ac nid oes ganddynt unrhyw bryderon. Pe bai unrhyw bryderon yn codi, byddai'r Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Rheolwr Buddsoddi.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu eu bod wedi dilyn eu polisi ymgysylltu (fel y manylir yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi) ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024.

2. Polisïau pleidleisio rheolwr

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y Cynllun mewn ecwitïau (sydd â hawliau pleidleisio) gydag EdenTree (sy'n rheoli'r gwarantau sylfaenol yn y cronfeydd y mae'r Cynllun yn buddsoddi ynddynt).

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo hawliau pleidleisio i'r rheolwr. Nid oes gan yr ymddiriedolwyr hawliau cyfreithiol i bleidleisiau sylfaenol y cronfeydd. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu ymddygiad pleidleisio'r rheolwr a byddai'n codi unrhyw bryderon gyda'r rheolwr. Os byddai anghytuno mynych, byddai'r Ymddiriedolwyr yn adolygu ac o bosibl yn terfynu'r gronfa os oedd yr Ymddiriedolwyr yn teimlo nad oedd credoau'r rheolwr yn gyson â rhai'r Cynllun.

Mae EdenTree yn cefnogi'r egwyddor o bleidleisio ystyriol, gan gredu bod gan ddirprwyon werth economaidd a stiwardiaeth, a bod gan gyfranddalwyr rôl hanfodol i'w chyflawni wrth annog a chynnal safonau uchel llywodraethu corfforaethol byd-eang o safbwynt bod yn fuddsoddwyr tymor hir.

Felly, mae EdenTree yn ceisio pleidleisio ym mhob cyfarfod lle mae gan y cwmni gyfranddaliad. Ar gyfer daliadau cwmni rhyngwladol, mae EdenTree yn dirprwyo cyfrifoldeb am ymchwil a dirprwy-bleidleisio i Glass Lewis & Co.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am bolisïau'r rheolwr ac adroddiadau chwarterol ar weithgarwch pleidleisio ar y wefan ganlynol: https://www.edentreeim.com/insights#screening

3. Pleidleisiau a fwriwyd

Mae'r tabl isod yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag ystadegau pleidleisio ar gyfer y Gronfa Ecwiti Byd-eang Cyfrifol a Chynaliadwy ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024.

Nifer y daliadau ecwiti	
Cyfarfodydd sy'n gymwys i bleidleisio	68
Cyfarfodydd wedi'u blocio gan gyfranddaliadau	4
Nifer y marchnadoedd pleidleisio	19
Nifer y cynigion cymwys	890

Nifer y Cynigion anghymwys (wedi'u rhannu)	56
Cyfran y penderfyniadau cymwys a bleidleisiodd	100%
Pleidleisiau yn cefnogi Rheolwyr	83%
Pleidleisiau yn erbyn Rheolwyr	15%
Pleidleisiau ymatal	2%
Cyfarfodydd gydag o leiaf un cynnig yn gwrthwynebu rheolwyr	48
Pleidleisiau a fwriwyd yn groes i argymhelliad yr Ymgynghorydd Dirprwyol	10%

Roedd yr Ymddiriedolwyr yn fodlon â lefel y pleidleisio a fwriwyd gan y rheolwr buddsoddi.

4. Gwrthdaro buddiannau'r rheolwr

Gofynnwyd i'r rheolwr a oedd unrhyw wrthdaro buddiannau yn ymwneud â daliadau yn ei gronfa(eydd), o ran y meini prawf canlynol, dros y cyfnod:

1. Yn gyffredinol, mae gwrthdaro ymddangosiadol rhwng y cwmni rheoli asedau a chleientiaid e.e. mae'r rheolwr yn darparu cynhyrchion neu wasanaethau sylweddol i gwmni y mae ganddo ecwiti neu daliad bond ynddo hefyd;

Rydym yn cydnabod y gwrthdaro posibl o fuddsoddi mewn cwmnïau rhestredig fel Hargreaves ac ABN AMRO, sydd hefyd yn gleientiaid i ni. Mae hyn wedi'i gofnodi yn ein cofrestr gwrthdaro. Ar hyn o bryd yr unig wrthdaro yw pe baem yn cael daliad perthnasol lle gallem ddylanwadu ar wneud penderfyniadau drwy ein hawliau pleidleisio. Er mwyn lliniaru hyn rydym wedi cymryd camau i adolygu a monitro unrhyw daliadau lle rydym yn berchen ar fwy na 5% o gyfalaf cyfranddaliadau pleidleisio, gydag unrhyw daliad dros y trothwy hwn yn cael ei nodi'n awtomatig yn Charles River. Nid oes unrhyw daliad yn agosáu at y trothwy hwn ac o ystyried cyfalafu marchnad y cwmnïau hyn, nid ydym yn rhagweld y bydd y gwrthdaro hwn yn datblygu.

2. Uwch staff yn y cwmni rheoli asedau sy'n dal swyddi (e.e. fel aelod o'r Bwrdd) mewn cwmni lle mae gan y cwmni rheoli asedau ddaliadau ecwiti neu fondiau;

Mae Mark Hews Prif Swyddog Gweithredol ein Grŵp a Chadeirydd EdenTree yn Gyfarwyddwr Mapfre RE, is-gwmni i Mapfre. Mae Cronfa Ecwiti Ewropeaidd Gyfrifol a Chynaliadwy EdenTree wedi dal (a gallai o bosibl ddal) cyfranddaliadau yn Mapfre. Mae hyn wedi'i gofnodi yn ein Cofrestr Gwrthdaro ac mae Mark Hews yn ymwybodol, os yw'n derbyn unrhyw wybodaeth fewnol fod yn rhaid iddo gynghori EdenTree Compliance fel y gellir gosod y stoc ar ein Rhestr STOP. (Sicrhau na allwn fasnachu yn y sicreb). Cydymffurfio â chodio yn Charles River i dynnu sylw at unrhyw fasnachu yn Mapfre a chynhyrchu rhybudd meddal, gan alluogi cwmni i sicrhau

nad oes unrhyw wybodaeth hysbys a fyddai'n atal masnachu. Ar 30 Mehefin 2024, ar hyn o bryd mae gan Gronfa Ecwiti Ewrop 2,000,000 o gyfranddaliadau yn Mapfre (1.8% o'r portffolio ar hyn o bryd)

3. Staff stiwardiaeth y cwmni rheoli asedau sydd â pherthynas bersonol ag unigolion perthnasol (e.e. ar y Bwrdd neu ysgrifenyddiaeth y cwmni) mewn cwmni lle mae gan y cwmni ecwiti neu ddaliad bond;

AMH

4. Sefyllfa lle mae buddiannau gwahanol gleientiaid yn ymwahanu. Enghraifft o hyn fyddai meddiannu lle mae un set o gleientiaid yn agored i'r targed a set arall yn agored i'r prynwr;

AMH

5. Gwahaniaethau rhwng polisïau stiwardiaeth rheolwyr a'u cleientiaid;

Na - mae ein hymarfer stiwardiaeth gwirioneddol yn swyddogaeth ddirprwyedig ar gyfer ein cronfeydd cyfun fel y'u dogfennwyd yn ein Cofrestr Gwrthdaro, cynhelir yr holl bleidleisio ac ymgysylltu yn unol â'n polisïau mewnol. Byddai unrhyw wrthdaro posibl yn anarferol a byddai'n cael ei ystyried fesul achos ond ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw esiamplau.

6. Unrhyw wrthdaro arall ar draws unrhyw un o'r daliadau.

AMH

5. Y pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a fwriwyd

Ein diffiniad o bleidlais arwyddocaol yw pleidlais lle mae'r rheolwr buddsoddi wedi gwrthwynebu'r Rheolwyr ar gynigion arferol a lle maent wedi cofrestru pleidlais ar gynnig cyfranddalwyr neu strategaeth newid hinsawdd. Isod mae detholiad o bleidleisiau arwyddocaol ar gyfer 2023/24.

Cwmni	**Dyddiad**	**Crynodeb**	**Penderfyniad pleidleisio**	**Pam Arwyddocaol / Rhesymeg pleidleisio**	**Canlyniad**
Alphabet Inc	6/2/2023	Pleidlais Ymgynghorol ar Iawndal Swyddogion Gweithredol	Yn erbyn	Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Aliniad gwael rhwng cyflog a pherfformiad Cyfle STI/LTI gormodol	Pasiwyd y bleidlais (76% Cefnogaeth - anghydweld sylweddol o 24%)
Diwygio Cynllun Stoc 2021	Yn erbyn		Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn		Pasiwyd y bleidlais (85% Cefnogaeth -

		rheolwyr Rhesymeg: Cyflymder grantiau hanesyddol; Cost ormodol o'i gymharu â gwerth menter	anghydweld nodedig o 15%)
Ethol Ann Mather	Yn erbyn	Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Aelod o'r Pwyllgor Iawndal - goruchwyliaeth esgeulus o gydnabyddiaeth ariannol	Pasiwyd y bleidlais (91% o gefnogaeth)
Ethol John L. Hennessy	Yn erbyn	Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Amrywiaeth rhyw gwael ar y bwrdd; Strwythur cyfran aml-ddosbarth + hawliau pleidleisio anghyfartal	Pasiwyd y bleidlais (84% Cefnogaeth - anghydweld nodedig o 16%)
Ethol K. Ram Shriram	Yn erbyn	Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Aelod o'r Pwyllgor Iawndal - goruchwyliaeth esgeulus o gydnabyddiaeth ariannol	Pasiwyd y bleidlais (95% o gefnogaeth)
Ethol L. John Doerr	Yn erbyn	Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Aelod Mewnol / Cyswllt o'r pwyllgor iawndal	Pasiwyd y bleidlais (93% o gefnogaeth)
Ethol Robin L. Washington	Yn erbyn	Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Aelod o'r Pwyllgor Iawndal - goruchwyliaeth esgeulus o	Pasiwyd y bleidlais (94% o gefnogaeth)

			gydnabyddiaeth ariannol		
Cadarnhau Archwilydd	Yn erbyn		Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Daliadaeth archwilydd gormodol.	Pasiwyd y bleidlais (98% o gefnogaeth)	
Cynnig cyfranddalwyr ynghylch gweithgarwch lobïo Alinio ag ymrwymiadau hinsawdd a Chytundeb Paris	O blaid		Arwyddocâd: Cynnig cyfranddalwyr yn ymwneud â hinsawdd Rhesymeg: Byddai'n egluro alinio lobïo gydag ymrwymiadau hinsawdd	Ni lwyddodd y bleidlais (14% o gefnogaeth)	
Microsoft Corporation	12/7/2023	Pleidlais Ymgynghorol ar Iawndal Swyddogion Gweithredol	Yn erbyn	Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Aliniad gwael rhwng cyflog a pherfformiad Cyfle STI/LTI gormodol	Pasiwyd y bleidlais (94% o gefnogaeth)
Ethol Hugh F. Johnston	Yn erbyn		Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Yn gwasanaethu ar ormod o fyrddau	Pasiwyd y bleidlais (91% o gefnogaeth)	
Cadarnhau Archwilydd	Yn erbyn		Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Daliadaeth archwilydd gormodol.	Pasiwyd y bleidlais (95% o gefnogaeth)	
Cynnig cyfranddalwyr ynghylch adroddiad ar leoli mewn gwledydd lle mae	O blaid		Arwyddocâd: Cynnig cyfranddalwyr yn ymwneud â hawliau dynol Rhesymeg: Byddai'n llywio asesiad o amlygiad y	Ni lwyddodd y bleidlais, ond derbyniodd gefnogaeth nodedig o 34%	

pryderon hawliau dynol sylweddol			cwmni i risgiau hawliau dynol		
Hartford Financial Services Group Inc.	5/17/2023	Pleidlais Ymgynghorol ar Iawndal Swyddogion Gweithredol	Yn erbyn	Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Aliniad gwael rhwng cyflog a pherfformiad Cyfle STI/LTI gormodol	Pasiwyd y bleidlais (92% o gefnogaeth)
Ethol Trevor Fetter	Ỳn erbyn		Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr. Rhesymeg: Cyfarwyddwr arweiniol nad yw'n annibynnol wedi'i gyfuno â Chadeirydd / Prif Swyddog Gweithredol	Pasiwyd y bleidlais (96% o gefnogaeth)	
Cadarnhau Archwilydd	Yn erbyn		Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Daliadaeth archwilydd gormodol.	Pasiwyd y bleidlais (96% o gefnogaeth)	
Cynnig cyfranddalwyr ynghylch polisi gwarantu a benthyg tanwydd ffosil	O blaid		Arwyddocâd: Cynnig cyfranddalwyr yn ymwneud â hinsawdd Rhesymeg: Mae gan y cais rinwedd gref o ran polisi benthyca a gwarantu tanwydd ffosil	Ni lwyddodd y bleidlais (9% o gefnogaeth)	
Medtronic Plc	10/19/2023	Pleidlais Ymgynghorol ar Iawndal	Yn erbyn	Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr	Pasiwyd y bleidlais (93% o gefnogaeth)

		Swyddogion Gweithredol		Rhesymeg: Aliniad gwael rhwng cyflog a pherfformia d Cyfle STI/LTI gormodol	
Penodi Archwilydd ac Awdurdod i Bennu Ffioedd		Yn erbyn		Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Daliadaeth archwilydd gormodol. Dim tendr am 60 mlynedd	Pasiwyd y bleidlais (91% o gefnogaeth)
Ethol Denise M. O'Leary		Yn erbyn		Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Cadeirydd nad yw'n annibynnol y Pwyllgor Archwilio - pwyllgor 50% annibynnol	Pasiwyd y bleidlais (89% o gefnogaeth – anghydweld nodedig o 11%)
Ethol Kendall J. Powell		Yn erbyn		Arwyddocâd: Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Aelod Mewnol/ Cyswllt o'r pwyllgor iawndal	Pasiwyd y bleidlais (90% o gefnogaeth)
SSE Plc	7/20/2023	Adroddiad ar Gydnabyddi aeth Ariannol	Yn erbyn	Arwyddocâd : Pleidlais yn erbyn rheolwyr Rhesymeg: Aliniad gwael rhwng cyflog a pherfformia d Cyfle STI/LTI gormodol	Pasiwyd y bleidlais (95% o gefnogaeth)
Cymeradwyo Adroddiad Pontio Sero Net		O blaid		Arwyddocâd: Pleidleisio ar adroddiad hinsawdd y cwmni Rhesymeg:	Pasiwyd y bleidlais (93% o gefnogaeth)

Cefnogi cynnydd y
cwmni dros y cyfnod